OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1899 (Cy.181)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Gorffennaf 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 101(3)(a), 105(6), 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) ac (11), a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**);

Yn unol ag adran 117 o Ddeddf Addysg 2002, i'r graddau y gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau yn adran 105(6) o'r Ddeddf honno, gwnaeth Gweinidogion Cymru y fath drefniadau ag a ystyrient yn briodol ar gyfer ymgynghori ynglŷn â'r cynigion;

Yn unol ag adran 210(3) o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i cymhwysir gan baragraff 34(2)o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**)) cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo gan benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

(**1**) 2002 p.32

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2006 p.32. At ddibenion paragraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y "swyddogaeth gyfatebol" i Weinidog y Goron mewn perthynas â Lloegr yw'r swyddogaeth a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 80(3)(a), 84(6) ac 87 o Ddeddf Addysg 2002.